




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003: Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**

**Canllawiau interim ar gyfer awdurdodau lleol fel trydydd parti  
perthnasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i waith partneriaeth  
amlesiataethol**

**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder – Uned Polisi Cyfreithiol Troseddol a Sifil  
Gorffennaf 2015**



# Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol fel trydydd parti perthnasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i waith partneriaeth amlasiataethol

## Cynnwys

Rhagymadrodd.....	3
- Diben.....	3
- Cynulleidfa.....	3
Cyd-destun cyfreithiol.....	3
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.....	3
- Trydydd parti perthnasol.....	5
Dynodi achosion a gweithio gyda dioddefwyr .....	5
- Ymdrin ag achosion lle mae FGM yn fater dan sylw .....	7
- Peidiwch â gwneud y canlynol: .....	7
- Gweithio mewn partneriaeth .....	8
Ceisiadau am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM.....	9
- Gwneud cais.....	9
- Lleoliadau llysoedd .....	9
- Cyfleusterau arbennig.....	10
- Ar ôl gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM.....	10
Rhagor o wybodaeth .....	11

# Rhagymadrodd

## Diben

1. Bwriad y canllawiau hyn yw rhoi cyngor a chymorth ychwanegol i weithwyr rheng flaen mewn awdurdodau lleol pan fyddant yn ystyried gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) fel Trydydd Parti Perthnasol dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003<sup>1</sup> (y Ddeddf) fel y'i diwygiwyd gan adran 73, Deddf Troseddau Difrifol 2015. Rydym yn argymhell yn gryf fod y rhai sy'n ystyried gwneud cais o'r fath hefyd yn cyfeirio at y Canllawiau Ymarfer Amlasiataethol (y gellir dod o hyd iddynt yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilation-guidelines#history>)<sup>2</sup>. Yn y tymor hir, rydym yn rhagweld y bydd cynnwys y canllawiau hyn yn rhan o'r Canllawiau Ymarfer Amlasiantethol wedi'u diweddarau a/neu'r canllawiau statudol sydd i gael eu cynhyrchu dan adran 75 Deddf Troseddau Difrifol 2015.

## Cynulleidfa

2. Dylai'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan yr holl weithwyr achosion a chynghorwyr cyfreithiol mewn awdurdodau lleol sy'n gweithio i:
  - amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth; ac
  - amddiffyn oedolion bregus – pobl sydd ag anghenion cymorth – rhag camdriniaeth.
3. Pobl sy'n gweithio mewn timau gofal cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol oedolion sydd fwyaf tebygol o ddod ar draws achosion FGM ac oherwydd hynny bydd angen iddynt ystyried y posibilrwydd bod angen Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM ochr yn ochr â mesurau amddiffyn cyfredol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Dylid dwyn yr achosion hyn i sylw eu hadrannau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau addysg a iechyd yn ymwybodol o'r canllawiau hyn fel eu bod yn gwybod beth y mae angen ei ystyried os bydd rhywun yn mynegi eu pryderon wrthynt.
4. Mae'r canllawiau hyn yn tynnu sylw at y materion cyffredinol y mae angen eu hystyried wrth wneud cais i lys. Bydd cynnwys y canllawiau'n berthnasol i bob asiantaeth statudol, anstatudol a thrydydd sector a allai orfod ymdrin â merch neu fenyw<sup>3</sup> sydd wedi bod yn destun FGM neu sydd mewn perygl o ddod yn ddiodefwyr FGM. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu a'r sectorau addysg, iechyd, tai, budd-daliadau ac elusenol/gwirfoddol. Caniateir dosbarthu'r canllawiau hyn yn eang, ar draws pob asiantaeth.

## Cyd-destun cyfreithiol

### Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003

5. Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys nifer o droseddau sy'n gysylltiedig ag FGM, sydd wedi cael eu hystyried gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf, yn flaenorol, wedi cynnwys unrhyw rwymedi sifil a fyddai'n cynorthwyo wrth amddiffyn diodefwyr neu ddiodefwyr posibl FGM. Daeth adran 73 Deddf Troseddau Difrifol yn weithredol ar 17 Gorffennaf 2015. Roedd yr adran hon yn diwygio Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 drwy fewnosod adran 5A

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/31/contents>

<sup>2</sup> Disgwylir y bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau yn hwyrach eleni.

<sup>3</sup> Mae FGM yn gallu cael ei gyflawni yn erbyn merch neu fenyw o unrhyw oed, ond gan mai marchod o 5 i 8 oed sydd fwyaf mewn perygl, defnyddir 'merch' o hyn allan yn y canllawiau hyn i gyfeirio at y nail a'r llall.

ac Atodlen 2, gan wneud darpariaeth ar gyfer mesur cyfraith sifil newydd – y Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM – y gall llys ei wneud i amddiffyn merch sydd naill ai wedi bod yn ddiodefwr FGM neu mewn perygl o fod yn ddiodefwr FGM. Mae pwerau'r llys yn helaeth a gall gorchmynion gynnwys gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion neu delerau eraill y mae'r llys yn tybied sy'n briodol i atal neu newid ymddygiad rhai a fyddai'n ceisio gwneud i ferch ddiodefwr FGM neu rai sydd eisoes wedi cyflawni neu drefnu bod rhywun yn cyflawni FGM ar ddiodefwr.

6. Enghreifftiau o'r mathau o orchmynion y gallai'r llys eu gwneud:
  - gorchymyn i amddiffyn diodefwr neu ddiodefwr posib FGM rhag cael ei hebrwng dramor;
  - gorchymyn i ildio pasbort neu unrhyw ddogfennau teithio eraill, gan gynnwys pasbort/dogfennau teithio y ferch sydd i'w hamddiffyn;
  - gorchymyn i wahardd unigolion penodol rhag cychwyn unrhyw drefniadau yn y DU neu dramor i FGM gael ei gyflawni ar yr unigolion sydd i'w amddiffyn;
  - cynnwys telerau yn y gorchymyn sy'n gysylltiedig ag ymddygiad yr atebydd/atebwyr yng Nghymru a Lloegr a thu allan i Gymru a Lloegr; a
  - chynnwys telerau sy'n ymdrin ag atebwyr sydd, neu a allai ddod, yn gysylltiedig mewn modd arall (neu yn lle'r atebwyr gwreiddiol) ac a allai gyflawni neu geisio cyflawni FGM yn erbyn merch.
7. Caniateir gwneud gorchmynion hefyd yn erbyn unigolion eraill nad ydynt wedi'u henwi fel atebwyr yn y cais, i gydnabod cymhlethdod y materion a nifer y bobl a allai fod yn gysylltiedig â'r materion yn y gymuned ehangach.
8. Mae torri amodau gorchymyn yn drosedd, a gellir arestio'r atebydd os yw'r heddlu'n credu bod achos rhesymol i amau bod amodau'r gorchymyn wedi'u torri. Gellir rhoi cosb fwyaf o 5 mlynedd o garchar am y trosedd o dorri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM. Fel dewis arall yn lle erlyn, gellir delio ag achos o dorri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM drwy'r llwybr sifil fel dirmyg llys, sy'n gallu dwyn cosb o hyd at 2 flynedd o garchar. Gellir gwneud cais i'r llys am warrant arestio os yw'r atebydd/atebwyr wedi methu cydymffurfio â thelerau gorchymyn neu eu bod wedi cyflawni dirmyg llys mewn modd arall cysylltiedig â'r gorchymyn.
9. Dan y Ddeddf, gall y tri chategori canlynol o bobl wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM.
  - yr unigolyn sydd i'w amddiffyn, heb ganiatâd y llys;
  - trydydd parti perthnasol, sy'n gallu gwneud cais ar ran diodefwr neu ddiodefwr posib, heb ganiatâd y llys; ac
  - unrhyw un arall ar ran yr unigolyn sydd i'w amddiffyn, cyn belled â'u bod yn cael caniatâd y llys i wneud cais.
10. Gall llys hefyd wneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM, heb i unrhyw un wneud cais iddo, mewn rhai achosion teulu. Hefyd, gall llys troseddol wneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM, heb gais, mewn achos troseddol ar gyfer trosedd anffurfio organau cenhedlu, lle bo'r unigolyn a fyddai'n atebydd mewn unrhyw achos am orchymyn amddiffyn rhag FGM yn ddiffynnydd yn yr achos troseddol. Gellir hefyd gwneud Gorchymyn FGM mewn achos troseddol o'r fath i amddiffyn merch sydd mewn perygl, pa un ai a yw wedi diodefwr oherwydd y trosedd dan sylw yn yr achos troseddol ai peidio. Er enghraifft, gallai'r llys hefyd amddiffyn chwaer iau i ddiodefwr trosedd anffurfio organau cenhedlu mewn achos troseddol.
11. Dylid nodi nad yw cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM yn ddewis arall yn lle gwaith yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth iddynt ymchwilio i droseddau ac erlyn troseddwyr. Gellir ymchwilio i droseddau ac erlyn troseddwyr yr un adeg ag y gwneir cais neu pan fo gorchymyn mewn grym. Mae cyflawni neu gomisiynu FGM ar unigolyn yn drosedd. Gellir erlyn y sawl sy'n cyflawni'r trosedd (a allai fod yn rhieni, aelodau o'r teulu neu aelodau o'r gymuned ehangach) am gynllwynio i

gyflawni neu geisio cyflawni trosedd FGM. Mae hyn yn cynnwys helpu, annog, cynghori, annog, cynorthwyo neu beri i rywun arall gyflawni neu geisio cyflawni trosedd FGM.

12. Dylid nodi hefyd y gallai cyfeirio at gyfreithiwr teulu achrededig i ddelio â materion ehangach cyfraith teulu breifat neu gyhoeddus, lle bo hynny'n berthnasol, fod yr un mor bwysig er mwyn cwrdd ag anghenion y cleient.

### Trydydd parti perthnasol

13. Ym mis Gorffennaf 2014, ymgynghorodd<sup>4</sup> y Llywodraeth ar greu'r Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am farn ynghylch pwy ddylid eu hystyried yn drydydd parti perthnasol. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cynnig y dylid ystyried awdurdodau lleol yn drydydd parti perthnasol. Mae Rheoliadau Gorchymynion Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Trydydd Parti Perthnasol) 2015<sup>5</sup> yn rhoi hyn mewn grym, gan alluogi awdurdodau lleol i weithredu fel trydydd parti perthnasol o 17 Gorffennaf 2015 ymlaen. Mae hyn yn golygu pan fydd awdurdodau lleol yn gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM, y dylent lenwi Ffurflen FGM001 (gweler paragraff 38 isod) sy'n eu galluogi i wneud cais heb orfod gwneud cais am ganiatâd y llys i wneud hynny yn gyntaf.

### Dynodi achosion a gweithio gyda dioddefwyr

14. Mae'r Canllawiau Arfer Amlasiantaethol (sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilation-guidelines#history>)<sup>6</sup> yn rhoi gwybodaeth hanfodol am y materion sy'n gysylltiedig ag FGM, cymhellion y rhai sy'n ei hyrwyddo a'r canlyniadau i'r dioddefwyr. Dylid nodi'r pwyntiau allweddol a ganlyn:
  - Mae FGM yn anghyfreithlon yn y DU. At ddibenion y gyfraith droseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ystyr FGM yw anffurfio'r labia majora, y labia minora a'r clitoris. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi dosbarthu FGM i bedwar math, sef:
    - (i) Math 1: Clitoridectomi. Mae hyn yn golygu cael gwared â rhan neu'r cyfan o'r clitoris (rhan fechan, sensitif ac ymgodol o'r organau cenhedlu benywaidd) ac, mewn achosion prin iawn, y blaengroen yn unig (y plyg croen o gwmpas y clitoris).
    - (ii) Math 2: Toriad: Mae hyn yn golygu cael gwared â rhan neu'r cyfan o'r clitoris a'r labia minora (y labia yw'r gwefusau o gwmpas y wain).
    - (iii) Math 3: Gwaeëgiad. Mae hyn yn golygu culhau'r agoriad i'r wain drwy greu sêl i'w gorchuddio. Caiff y sêl ei ffurfio drwy dorri ac ailosod y labia mewnol neu'r labia allanol, a hynny gan gael gwared ar y clitoris neu heb gael gwared arno.
    - (iv) Math 4: Arall. Mae hyn yn golygu pob gweithred niweidiol arall ar yr organau cenhedlu benywaidd at ddibenion anfeddygol.
  - Ceir nifer o enwau am FGM, gan gynnwys 'torri organau cenhedlu benywod', 'enwaedu' neu 'derbyn'. Mae teuluoedd yn ei wneud am amrywiaeth o resymau cymhleth, ond yn aml dan gredu ei fod yn llesol i'r ferch. Gall y rhesymau a roddir gynnwys:

<sup>4</sup> <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/female-genital-mutilation-proposal-to-introduce-a>

<sup>5</sup> OS 2015 Rhif. 1422

<sup>6</sup> Disgwylir y bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau yn hwyrach eleni.

- (i) mae'n rhoi statws a pharch i'r ferch;
- (ii) mae'n cynnal gwryfyddod/diweirdeb merch;
- (iii) mae'n rhan o fod yn fenyw;
- (iv) mae'n ddefod newid byd;
- (v) mae'n caniatáu i ferch gael ei derbyn yn gymdeithasol, yn enwedig ar gyfer priodi;
- (vi) mae'n cynnal urddas y teulu;
- (vii) mae'n glanhau ac yn puro'r ferch;
- (viii) mae'n rhoi teimlad o berthyn i'r gymuned i'r ferch a'i theulu;
- (ix) mae'n cyflawni gofyniad crefyddol y credir ei fod yn bodoli;
- (x) mae'n sicrhau bod arfer/traddodiad yn parhau;
- (xi) mae'n helpu merched a benywod i fod yn lân a hylan;
- (xii) mae'n ddymunol o safbwynt esthetaid;
- (xiii) credir, yn anghywir, ei fod yn gwneud geni plentyn yn fwy diogel i'r plentyn; ac
- (xiv) mae'n cael gwared ar anlwc ac ysbrydion aflan o'r teulu.

- Mae FGM yn ffurf o gam-drin plant a thrais yn erbyn benywod ac mae'n cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r effeithiau tymor byr ar ferch neu fenyw sydd wedi bod yn destun FGM yn cynnwys poen difrifol, sioc emosiynol a seicolegol, gwaedlif, haint, ataliad wrin, niwed i organau eraill neu hyd yn oed farwolaeth. Mae'r goblygiadau tymor hir i ferched neu fenywod sydd wedi bod yn destun FGM Math 1 a Math 2 yn debygol o fod yn gysylltiedig â thrawma y weithred ei hun, tra bo'r problemau iechyd y mae FGM Math 3 yn eu hachosi yn hynod niweidiol ac yn achosi niwed mwy difrifol i iechyd a lles, megis niwed i'r system atgenhedlu, gan gynnwys anffrwythlondeb.
- Mae'r oed pan fydd FGM yn cael ei gyflawni ar ferched neu fenywod yn amrywio yn ôl y gymuned lle caiff ei ymarfer. Gellir cyflawni'r weithred pan fo merch newydd gael ei geni, yn ystod plentynod neu lasoed, adeg priodi neu yn ystod beichiogrwydd cyntaf. Fodd bynnag, credir bod y mwyafrif o achosion FGM yn digwydd rhwng 5 ac 8 oed ac, felly, ystyrir bod merched yn yr oedran hwnnw mewn mwy o berygl.

15. Credir bod merched oed ysgol y cyflawnir FGM arnynt dramor yn cael eu hebrwng dramor ar ddechrau gwyliau'r ysgol, yn enwedig gwyliau'r haf, fel bod digon o amser i wella cyn mynd yn ôl i'r ysgol. Er nad yw hon yn rhestr gyflawn, mae'r arwyddion bod FGM ar fin digwydd fel a ganlyn:
- pan fydd un o ferched hŷn y teulu, sy'n ymweld o wlad arall, o gwmpas (yn enwedig pan fo FGM yn arfer diwylliannol);
  - pan fydd gweithiwr proffesiynol yn clywed sôn am FGM mewn sgwrs, hynny yw pan fydd merch yn dweud wrth blant eraill amdano, yn dweud yn gyfrinachol ei bod i fynd trwy weithred arbennig neu fynychu achlysur arbennig i ddod yn fenyw.
  - pan fydd merch yn gofyn am gymorth gan athro/athrawes neu oedolyn arall os yw'n ymwybodol ei bod mewn perygl uniongyrchol neu'n amau hynny.
  - pan fydd rhieni'n dweud eu bod nhw neu berthynas am fynd â'r plentyn o'r wlad am gyfnod hir;
  - pan fydd merch yn siarad am wyliau hir i'r wlad y mae'r teulu'n hanu ohoni neu wlad arall lle mae FGM yn gyffredin; neu
  - pan fydd rhieni'n ceisio atal eu plant rhag dysgu am FGM.
16. Ceir hefyd nifer o arwyddion bod merch eisoes wedi bod yn destun FGM. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'r rhestr isod yn gyflawn:
- efallai y bydd merch yn cael anhawster cerdded, eistedd neu sefyll ac efallai ei bod hyd yn oed yn edrych yn anghyfforddus. Efallai y bydd yn sôn yn benodol am boen neu anesmwythder rhwng ei choesau;

- efallai y bydd merch yn treulio mwy o amser na'r arfer yn yr ystafell ymolchi neu'r toiled oherwydd ei bod yn cael anhawster troethi. Efallai y bydd merch yn treulio cyfnodau hir allan o'r dosbarth yn ystod y dydd oherwydd problemau pledren neu broblemau mislif;
- efallai y bydd merch yn cael problemau throethol, problemau mislif neu broblemau stumog yn aml;
- efallai y bydd merch yn absennol o'r ysgol neu'r coleg am gyfnod hir neu yn aml;
- gall absenoldeb hir o'r ysgol neu'r coleg gyda newid amlwg mewn ymddygiad pan fo'r ferch yn dychwelyd (e.e. mae'n dawedog neu'n isel ei hysbryd) fod yn arwydd ei bod wedi bod trwy FGM yn ddiweddar.
- amharodrwydd i gael archwiliad meddygol arferol; ac
- efallai y bydd merch yn dweud yn gyfrinachol wrth weithiwr proffesiynol neu'n gofyn am gymorth, ond ddim yn mynd i fanylion am y broblem oherwydd bod arni ofn neu oherwydd embaras.

## Ymdrin ag achosion lle mae FGM yn fater dan sylw

17. Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol<sup>7</sup> ar unwaith os byddant yn dod yn ymwybodol o bosibilrwydd fod merch yn debygol o fod yn destun FGM neu ei bod eisoes wedi dioddef FGM. Efallai mai amser cyfyngedig y bydd gan ymarferwyr i amddiffyn merch a chymryd camau brys, effeithiol, yn enwedig os oes posibilrwydd y bydd rhywun yn mynd â nhw o'r wlad i gyflawni FGM arni.
18. Mae amddiffyn merched sydd mewn perygl o ddioddef FGM yn cyflwyno heriau penodol, oherwydd efallai na fydd unrhyw achos arall i bryderu ynghylch y teuluoedd dan sylw. Er enghraifft, efallai eu bod yn rhieni cariadus a gofalgar ym mhob cyswllt arall a bod ganddynt berthynas dda gyda'u plant. Fodd bynnag, o ran dyletswydd, mae'n rhaid cymryd camau i ddiogelu merched sydd mewn perygl ac mae'n rhaid i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r angen i wneud y canlynol:
  - ✓ **cymryd y mater o ddifrif bob amser a chydabod yr angen i amddiffyn merch rhag niwed sylweddol posib.** Efallai y bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn ei chael yn anodd bod rhiant, er enghraifft, yn trefnu i FGM gael ei gyflawni ar eu merch ac yn trefnu iddi gael ei hanfon dramor i'r diben hwnnw. Yn dibynnu ar yr arfer ddiwylliannol, efallai y bydd rhieni yn dweud wrth eu merch ifanc ei fod yn weithred arbennig a fydd yn eu galluogi i ddod yn fenyw;
  - ✓ **siarad â'r ferch ar ei phen ei hun** mewn man preifat lle na all yr unigolyn sy'n gweithredu ar ei rhan glywed neu weld y sgwrs yn digwydd;
  - ✓ **casglu cymaint o wybodaeth â phosib** am y dioddefwr neu ddioddefwyr posib – efallai mai hwn fydd yr unig gyfle;
  - ✓ **atgoffa'r dioddefwr neu ddioddefwyr posib o'u hawliau**, hynny yw fod FGM yn anghyfreithlon yn y DU a bod FGM, yn dibynnu faint oed yw'r ferch, yn cael ei ystyried yn ddull o gam-drin plant; a
  - ✓ **thrafod yr achos gydag asiantaethau perthnasol eraill.** Er enghraifft, os yw merch eisoes wedi bod yn destun FGM, dylid rhoi gwybod i'r heddlu bod gweithred anghyfreithlon wedi'i chyflawni.

### Peidiwch â gwneud y canlynol:

- X troi'r ferch neu'r unigolyn sy'n gweithredu ar ei rhan i ffwrdd a diystyru'r honiad fod posibilrwydd y bydd FGM yn cael ei gyflawni ar y sail nad oes llawer o dystiolaeth;
- X dweud wrth deulu'r ferch, ei ffrindiau neu aelodau o'r gymuned ei bod wedi gofyn am gymorth; neu

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilation-guidelines#history>. Fodd bynnag, bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau yn hwyrach eleni.

X geisio gweithredu fel cyfryngwr.

19. Efallai y bydd ardaloedd yn dymuno llunio eu rhestr wirio leol eu hunain o awgrymiadau ar gyfer staff rheng flaen o ran sut i ymdrin â'r mater . Rydym yn argymhell ym mhob achos, fodd bynnag, fod ymarferwyr yn siarad â'u hadrannau cyfreithiol fel eu bod yn ymwybodol o'r mater ac yn gallu rhoi cyngor ynghylch y mathau o rwymediâu cyfreithiol a allai fod ar gael i gynorthwyo merch y mae angen ei hamddiffyn o gyfnod cynnar. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ystod lawn o rwymediâu cyfreithiol sydd ar gael, yn ogystal â'r Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM, yn y Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol.
20. Mae darpariaeth wedi'i gwneud er mwyn gallu gwneud Gorchymynion Amddiffyn rhag FGM yn *ex parte* – heb hysbysu'r atebydd am yr achos, er enghraifft os oes rheswm dros gredu ei bod yn debygol y caiff y ferch ei niweidio gan yr atebydd neu y caiff ei symud o'r awdurdodaeth pe bai'r atebydd yn cael gwybod am wrandawriad sydd i gael ei gynnal ynghylch FGM. Dylid ystyried hefyd a yw'n briodol gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM ochr yn ochr â gorchymynion llys eraill (yn dibynnu ar ffeithiau pob achos).

### **Gweithio mewn partneriaeth**

21. Bydd gwaith amlasiantaethol i sicrhau ymateb lleol effeithiol a chydlynol er mwyn amddiffyn dioddefwr neu ddioddefwr posib FGM yn hanfodol, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth er mwyn darparu'r mesurau amddiffyn priodol mewn modd amserol ac effeithiol.
22. Rydym yn argymhell yn gryf y dylai awdurdodau lleol greu cysylltiadau gydag ysgolion lleol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu a'r sector gwirfoddol a chytuno ar system leol briodol ar gyfer cyfeirio achosion, darparu cymorth ac ymateb. Mae'r cysylltiadau hyn yn hanfodol wrth i achosion symud ymlaen drwy'r llysoedd ac ar ôl gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM, pan fydd angen cynnal y cysylltiad gyda'r dioddefwr i fonitro eu lles yn ogystal â sicrhau bod telerau eu gorchymyn yn dal i fod yn effeithiol.
23. Dylai ardaloedd lleol gytuno gyda phartneriaid ar y llwybrau cyfeirio gorau ar gyfer achosion. Dylai Protocolau Cyfeirio a Rhannu Gwybodaeth gael eu gweithredu cyn gynted â phosib rhwng pob asiantaeth. Mae hefyd yn bwysig rhoi ystyriaeth i'r rhwydwaith sy'n bodoli rhwng teuluoedd estynedig a chymunedau, a pha mor gyflym y gall gwybodaeth gael ei phasio rhyngddynt. Y realiti yw y gallai'r rhwydwaith hon gynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn unrhyw nifer o asiantaethau sy'n ymwybodol o gyfeiriad neu gais. Gallai'r sefyllfa godi lle mae gweithwyr proffesiynol dan bwysau mawr i ddatgelu gwybodaeth a'u bod yn wynebu gwrthdaro pan fo dyletswyddau proffesiynol yn cael eu cyfaddawdu gan gysylltiadau cymunedol cryf iawn. Rhaid i brotocolau sicrhau bod camau priodol mewn lle i atal dioddefwyr posib rhag bod mewn perygl difrifol.
24. Gallai gorchymyn a wneir gan y llys gynnwys amod fod rhaid i unigolyn ildio ei basbort, a phasbort y dioddefwr posib, i atal unrhyw un rhag mynd â'r dioddefwr posib dramor i fod yn destun FGM. Byddai felly yn hanfodol bod yr asiantaeth berthnasol, er enghraifft yr heddlu neu awdurdodau rheoli ffiniau, yn cael ei hysbysu, yn enwedig os oes perygl y bydd yr unigolyn yn cael ei hebrwng dramor yn y dyfodol agos.



## Ceisiadau am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM

### Gwneud cais

25. Dylai ceisiadau gan Awdurdod Lleol am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM gael eu gwneud drwy adran gyfreithiol yr Awdurdod Lleol, mewn cysylltiad agos â'r ymarferydd rheng flaen perthnasol. Ni ddylai gweithwyr achos gyflwyno cais eu hunain.
26. Mae'r holl wybodaeth berthnasol ynghylch gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM i'w chael yn nhaflen FGM700 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Gwneir y cais ei hun ar Ffurflen FGM001. Mae'r ffurflen hon yn galluogi trydydd parti i wneud cais ac i gynnwys gwybodaeth gefndir (hynny yw, tystiolaeth i gefnogi'r cais) am yr hyn a wyddant am amgylchiadau'r unigolyn sydd i'w amddiffyn. Mae'r dolenni at bob un o'r ffurflenni llys wedi'u rhestru ar ddiwedd y canllawiau hyn. Atodir rhagor o wybodaeth gefndir a chanllawiau o safbwynt y llys.
27. Mewn argyfwng, mae'n bosib gwneud cais *ex parte*, hynny yw, heb hysbysu'r atebydd/atebwyr. Gall hyn fod yn angenrheidiol mewn sefyllfaoedd lle bydd y ferch i'w hamddiffyn mewn perygl difrifol o gael ei hebrwng dramor. Dylid cyflwyno datganiad tyst wedi'i gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd i gefnogi cais o'r fath. Gall y llys ddweud wrthyh sut i wneud hyn.
28. Gall y llysoedd hefyd gyfarwyddo nad yw gwybodaeth benodol i gael ei datgelu, er mwyn amddiffyn y dioddefwr neu unrhyw un arall a allai fod mewn mwy o berygl pe bai ffeithiau penodol yn hysbys, neu am unrhyw reswm da arall.
29. Gellir gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM mewn achosion eraill, er enghraifft, os oes unrhyw achosion teulu eraill gerbron y llys a bod y llys o'r farn y dylid gwneud gorchymyn amddiffyn rhag FGM i amddiffyn merch (pa un ai a yw hi'n barti yn yr achos ai peidio) neu os yw unigolyn yn atebydd mewn achos Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM ac hefyd yn barti mewn achos teulu cyfredol. Gall llys hefyd wneud gorchymyn, heb i unrhyw un wneud cais iddo, mewn achosion troseddol am drosedd anffurfio organau cenhedlu. Gall llys wneud gorchymyn i amddiffyn merch, boed y ferch wedi dioddef oherwydd y trosedd dan sylw yn yr achos troseddol neu beidio, neu os yw'r unigolyn sy'n atebydd mewn unrhyw achos am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM yn ddiffynnydd yn yr achos troseddol.
30. Gellir hefyd gwneud ceisiadau i'r llys teulu i amrywio, ymestyn neu ryddhau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM.

### Lleoliadau llysoedd

31. Oherwydd natur arbenigol yr achosion hyn, dynodwyd 23 o lysoedd teulu i ddelio â cheisiadau am Orchymynion Amddiffyn rhag FGM er mwyn meithrin arbenigedd yn y maes hwn. Gellir gwrandao ceisiadau hefyd yn yr Uchel Lys yn Llundain (Y Llysoedd Barn Brenhinol) a ble bynnag arall sydd ag awdurdodaeth Uchel Lys. Efallai y bydd y rhai sy'n cyflwyno cais yn dymuno tynnu sylw'r llys at unrhyw ffactorau penodol i egluro pam y gallai llys penodol fod yn fwy priodol, e.e. os yw'r dioddefwyr yn dymuno aros yn anhysbys. Y llysoedd teulu dynodedig yw:

- Y Llys Teulu Canolog
- Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Birmingham
- Llys Cyfun Bradford
- Canolfan Gwrandawiaidau Llys Teulu Brighton
- Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Bryste
- Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caerdydd
- Llys Cyfun Derby
- Llys Teulu Dwyrain Llundain

- Llys Cyfun Leeds
  - Canolfan Llysoedd Sirol a Llysoedd Teulu Caerlŷr
  - Canolfan Gwrandawiadau Llys Sifil a Theulu Lerpwl
  - Llys Sirol a Llys Teulu Luton
  - Llys Sirol a Llys Teulu Manceinion
  - Canolfan Llysoedd Cyfun Newcastle upon Tyne
  - Llys Cyfun a Chanolfan Gwrandawiadau Teulu Norwich
  - Llys Cyfun a Chanolfan Gwrandawiadau Llys Teulu Rhydychen
  - Llys Cyfun Plymouth
  - Canolfan Llysoedd Cyfun Pourtsmouth
  - Llys Teulu Preston
  - Llys Sirol a Chanolfan Gwrandawiadau Llys Teulu Reading
  - Canolfan Llysoedd Cyfun Sheffield
  - Llys Cyfun Teeside
  - Llys Teulu Gorllewin Llundain
32. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt y llysoedd hyn yn nhaflen FGM700 Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM.
33. Yn gyffredinol, mae'r llysoedd wedi pennu aelodau penodol o'u staff i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer ceisiadau brys. Mae barnwyr penodol hefyd wedi cael eu pennu i ddelio â cheisiadau, gan gynnwys yr achosion hynny lle mae angen cyfleusterau arbennig. Mewn achosion lle ceir benyw yr ystyrir ei bod yn oedolyn sydd ag anghenion cymorth a diffyg galluedd neu efallai bod ganddi anableddau dysgu, efallai y bydd ymarferwyr yn dymuno holi a yw'r barnwr yn gallu delio â materion FGM a'r materion galluedd.

### **Cyfleusterau arbennig**

34. Bydd angen i'r rhai sy'n gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM ystyried fel rhan o'r cais a oes angen unrhyw gyfleusterau arbennig os yw'r dioddefwr neu ddioddefwr posib yn mynd i fod yn bresennol yn y gwrandawiadau llys. Efallai y bydd y llys yn gallu darparu ystafell aros ar wahân, mynedfa ac allanfa ar wahân neu le parcio ar safle'r llys i hwyluso mynediad rhwydd i adeilad y llys ar gyfer tystion sy'n cael eu bygwth. Efallai y bydd cyfleusterau amddiffyn tystion ar gael mewn rhai llysoedd. Efallai y bydd cyfleusterau ar gael i guddio tystion tu ôl i sgrîn, neu i ganiatáu rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo o leoliad arall neu yn breifat. Argymhellir y dylid gwneud ymholiadau gyda'r llys perthnasol cyn gynted â phosib ar ôl i gais gael ei wneud.
35. Gall Wasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM ddarparu cyfieithydd os oes angen. Nid yw'n gwneud gwahaniaeth a oes cyfreithwyr yn yr achos neu arian cyhoeddus ar gael ai peidio. Yn gyffredinol, bydd cyfieithydd ar gael ar gyfer y ceisydd. Dylid cysylltu â'r llys perthnasol i wneud y trefniadau angenrheidiol.

### **Ar ôl gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM**

36. Pan fydd Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM mewn lle, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos â'r dioddefwr a'r gwasanaeth cymorth perthnasol os oes un, er mwyn sicrhau bod y Gorchymyn yn darparu'r lefel amddiffyn a ddymunwyd. Mae'r adran gynharach ar weithio mewn partneriaeth yn berthnasol yn fan hyn. Mae angen sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau eraill, yn enwedig yr heddlu, er mwyn sicrhau bod cymorth parhaus ar gael i ddioddefwyr pan fo'i angen.
37. Os torrir amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM, gellir delio â'r mater yn y Llys Teulu (fel achos dirmyg llys) neu mewn llys troseddol (fel mater troseddol). Os bydd

yr heddlu'n ymchwilio i achos tor-amod posib fel trosedd, gallant arestio'r rhai sydd dan amheuaeth o fod wedi torri telerau'r gorchymyn. Yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen i erlyn am dorri amodau a/neu am unrhyw droseddau eraill a ddatgelir. Fodd bynnag, os penderfynir trin y tor-amod fel dirmyg llys, dylid gwneud cais i'r Llys Teulu am warant arestio. Dylid cyflwyno datganiad yn nodi sut y torrwyd amodau'r gorchymyn i gefnogi'r cais. Bydd angen cyflwyno'r gorchymyn i'r atebwyr.

## Rhagor o wybodaeth

38. I gael rhagor o wybodaeth am FGM, gweler isod:

<b>Y Weinyddiaeth Cyfiawnder</b>	Jean McMahon Uned Polisi Troseddol a Sifil	<a href="mailto:Jean.McMahon@justice.gsi.gov.uk">Jean.McMahon@justice.gsi.gov.uk</a> Ffôn: 0203 334 3208
<b>Ffurflenni Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM</b>	<p><b>FGM001</b> Ffurflen Gais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM002</b> Hysbysiad o Achos ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM003</b> Cais i amrywio, ymestyn neu ryddhau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM004</b> Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM005</b> Cais am warant arestio ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM006</b> Cais am ganiatâd i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM007</b> Cais i ymuno fel parti/rhoi'r gorau i fod yn barti i Orchymyn Amddiffyn rhag FGM</p> <p><b>FGM700</b> Gorchmynion Amddiffyn rhag FGM – Taflen llys</p>	<a href="http://hmctsformfinder.justice.gov.uk">hmctsformfinder.justice.gov.uk</a>
<b>Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol</b>	Mae'r canllawiau cyfredol ar gael drwy ddilyn y ddolen yn y golofn gyferbyn. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn yn cael eu diweddarau (rhagwelir y byddant ar gael yn ddiweddarach eleni).	<a href="https://www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilation-guidelines#history">https://www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilation-guidelines#history</a>

<b>Deddfwriaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003</li> <li>• Adran 73, Deddf Troseddau Difrifol 2015</li> <li>• Nodiadau esboniadol i Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (adran 73)</li> </ul>	<a href="http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/31/contents">http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/31/contents</a>  <a href="http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/9/section/73">http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/9/section/73</a>  <a href="http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/9/notes/division/3/5/2/8">http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/9/notes/division/3/5/2/8</a>
<b>Gwefan y Llywodraeth</b>		<a href="https://www.gov.uk/female-genital-mutilation">https://www.gov.uk/female-genital-mutilation</a>
<b>NSPCC</b>	<p>Cysylltwch â'r NSPCC yn ddienw os ydych yn pryderu bod merch neu fenyw ifanc mewn perygl o fod yn destun FGM neu wedi dioddef FGM.</p>	<p>Llinell gymorth FGM  E-bost: <a href="mailto:fgmhelp@nspcc.org.uk">fgmhelp@nspcc.org.uk</a>  Ffôn: 0800 028 3550  <u>Gwybodaeth am brisiau galwadau</u></p>

© Hawlfraint y Goron  
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder  
Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy anfon cais i  
[Jean.McMahon@justice.gsi.gov.uk](mailto:Jean.McMahon@justice.gsi.gov.uk)